OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 219

# Rheoliadau Asiantaethau Gofal Cartref (Cymru) 2004

## RHAN II

## PERSONAU COFRESTREDIG

### Ffitrwydd y darparydd cofrestredig

**8.**—(1) Rhaid i berson beidio â rhedeg asiantaeth onid yw'n ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i redeg asiantaeth oni bai bod y person —

(a) yn unigolyn sy'n rhedeg asiantaeth —

(i) mewn dull nad yw mewn partneriaeth gydag eraill a'i fod yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3); neu

(ii) mewn partneriaeth gydag eraill a'i fod ef a phob un o'r partneriaid yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3); neu

(b) yn gorff ac —

(i) bod hwnnw wedi hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o enw, cyfeiriad a safle unigolyn yn y corff (unigolyn y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel yr "unigolyn cyfrifol") sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall i'r corff ac sy'n gyfrifol am reoli'r asiantaeth; a

(ii) bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3).

(3) Dyma'r gofynion —

(a) bod yr unigolyn yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;

(b) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i redeg neu (yn ôl y digwydd) i fod yn gyfrifol am oruchwylio rheolaeth yr asiantaeth; ac

(c) bod gwybodaeth neu (yn ôl y digwydd) ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â phob un o'r materion a restrir yn Atodlen 2 ar gael mewn perthynas â'r person.

(4) Nid yw person yn ffit i redeg asiantaeth—

(a) os yw wedi'i ddyfarnu'n fethdalwr neu os dyfarnwyd atafaeliad ar ei ystâd ac (yn y naill achos neu'r llall) nad yw wedi'i ryddhau ac nad yw'r gorchymyn methdaliad wedi'i ddiddymu neu wedi'i ddileu; neu

(b) os yw wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr neu wedi rhoi gweithred ymddiriedaeth ar eu cyfer, ac nad yw wedi'i ryddhau mewn perthynas â hwy.

### Penodi rheolwr

**9.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig benodi unigolyn i reoli'r asiantaeth—

(a) os nad oes rheolwr cofrestredig mewn perthynas â'r asiantaeth; a

(b) os yw'r darparydd cofrestredig —

(i) yn gorff;

(ii) yn rhedeg asiantaeth mewn partneriaeth;

(iii) heb fod yn berson ffit i reoli asiantaeth; neu

(iv) heb fod â gofal llawnamser dros yr asiantaeth o ddydd i ddydd, neu heb fwriadu bod â gofal drosti.

(2) Pan fydd —

(a) y darparydd cofrestredig, neu

(b) os oes penodiad wedi'i wneud o dan baragraff (1), y rheolwr cofrestredig,

yn cynnig bod, neu'n debyg o fod, neu wedi bod, yn absennol o'r asiantaeth am gyfnod parhaus o 28 diwrnod neu ragor, rhaid i'r darparydd cofrestredig benodi unigolyn i reoli'r asiantaeth tra bydd y darparydd neu (yn ôl y digwydd) y rheolwr cofrestredig yn absennol.

(3) Pan fydd y darparydd cofrestredig yn penodi person i reoli'r asiantaeth, rhaid iddo hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith —

(a) o enw'r person a benodwyd felly; a

(b) yn amodol ar gofrestru'r person, o'r dyddiad y mae effaith y penodiad i fod i ddod i rym.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig enwebu person i fod â gofal dros yr asiantaeth ar bob adeg y mae'r asiantaeth ar agor ar gyfer busnes a phan fydd y person cofrestredig yn absennol o'r fangre.

(5) Ni cheir enwebu person at ddibenion paragraff (4) oni bai bod gwybodaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â phob un o'r materion a restrir yn Atodlen 2 ar gael mewn perthynas ag ef ac wedi ei hysbysu i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio bod rhaid i'r wybodaeth sy'n ofynnol ym mharagraffau 10 ac 11 o Atodlen 3 fod ar gael yn lle'r wybodaeth sy'n ofynnol ym mharagraff 8 o Atodlen 2.

### Ffitrwydd y rheolwr

**10.**—(1) Ni chaiff person reoli asiantaeth oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli asiantaeth oni bai —

(a) ei fod yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;

(b) o roi sylw i natur yr asiantaeth a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth —

(i) bod gan y person y cymwysterau, y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol i reoli'r asiantaeth; a

(ii) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i reoli'r asiantaeth; ac

(c) bod gwybodaeth neu (yn ôl y digwydd) ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â phob un o'r materion a restrir yn Atodlen 2 ar gael mewn perthynas â'r person.

### Person cofrestredig — gofynion cyffredinol a hyfforddiant

**11.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, o roi sylw i natur a maint yr asiantaeth a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, redeg yr asiantaeth neu (yn ôl y digwydd) ei rheoli â gofal, cymhwysedd a medr digonol.

(2) Os yw'r darparydd cofrestredig —

(a) yn unigolyn, rhaid iddo ymgymryd; neu

(b) os yw'n gorff, rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd,

o dro i dro ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol er mwyn sicrhau bod gan yr unigolyn yr arbenigedd, y profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg yr asiantaeth neu (yn ôl y digwydd) i fod yn gyfrifol am redeg yr asiantaeth.

(3) Os yw'r asiantaeth yn cael ei rhedeg gan unigolion mewn partneriaeth, rhaid i'r partneriaid sicrhau bod un o'u plith yn ymgymryd â hyfforddiant fel sy'n ofynnol gan baragraff (2).

(4) Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd o dro i dro ag unrhyw hyfforddiant sy'n briodol er mwyn sicrhau bod ganddo'r arbenigedd, y profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r asiantaeth.

### Hysbysu tramgwyddau

**12.** Os yw'r person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd troseddol, p'un ai yng Nghymru neu mewn man arall, rhaid iddo hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar unwaith —

(a) o ddyddiad a man y collfarniad;

(b) o'r tramgwydd; ac

(c) o'r gosb a osodwyd mewn perthynas â'r tramgwydd.